



# Cymdeithas Cyfieithwyr Cymru

Arholiad Aelodaeth Gyflawn 4 Ebrill 2009  
Papur 2: Cyfieithu o'r Gymraeg i'r Saesneg

## Adroddiad y Prif Arholwr

Yr oedd hi'n siom o'r mwyaf na lwyddodd yr un ymgeisydd i gyrraedd y safon sy'n ofynnol ar gyfer Aelodaeth Gyflawn.

Cafwyd arwyddion niferus o afael annigonol yr ymgeiswyr ar Saesneg safonol. Prif wendid yr ymgeiswyr yn y categori hwn oedd diofalwch wrth ddarllen, gan arwain at gamddeall a chamddehongli, a diffyg darllen dros y cyfieithiadau. Byddai hi wedi bod yn ddoethach i ymgeiswyr wirio'u cynigion cyntaf drwy droi at eiriaduron ac ymarfer eu synnwyr cyffredin wrth ddewis o blith y posibiladau. Nid yw'r ddadl nad oedd digon o amser i wneud hyn yn dal dŵr am mai un o'r elfennau y rhoir prawf arno mewn arholiad cyfieithu yw'r gallu i weithio'n gyflym a chywir dan bwysau amser.

Yn Narn 1, y prif faen tramgwydd oedd y frawddeg: " 'Mae angen mwy nag un stori i greu gwirionedd,' meddai'r awdur preswyl ar ddiwedd *Atyniad*, 'ac mae angen mwy nag un stori i greu'r gwir'." Ni chafwyd unrhyw gyfieithiad cwbl foddhaol ohoni gan neb: 'truth/the truth' meddai rhai, 'reality/truth' (neu i'r gwrthwyneb) meddai eraill. Byddai " 'More than one story is needed to create truth', says the writer in residence at the end of *Atyniad*, 'and more than one story is needed to create the truth' " wedi rhagori. A syndod, yn y Gymru grantiog sydd ohoni, oedd na ddefnyddiodd neb yr ymadrodd 'writer in residence' wrth gyfieithu 'awdur preswyl'.

Baglodd y mwyafrif, i wahanol raddau ac mewn gwahanol ffyrdd, dros yr ymadrodd 'i bontio rhwng' (cafwyd y cyfieithiad llythrennol 'to bridge between' gan rai). Rhyfeddach oedd yr amrywiaeth o gynigion a gafwyd am yr ymadrodd 'mor ddealladwy'; dim ond dau a welodd mai 'as intelligible' yn hytrach nag 'as clear' neu 'as coherent' oedd y cyfieithiad gorau. Cafwyd amryw o gynigion am y gair 'darlun', gan gynnwys 'illustration' yn hytrach na 'portrait' neu 'depiction'.

Arwydd arall o ddiffyg ymglywed ag idiomau'r Saesneg oedd yr achosion lle defnyddiwyd 'completely necessary' yn hytrach nag 'entirely/wholly necessary' am 'cwbl angenrheidiol'.

Yn Narn 2, y prif wall cyffredin o ran cyfleu ystyr oedd defnyddio'r gair 'voters' yn hytrach nag 'electors' am 'etholwyr'. Cafwyd tuedd i ddefnyddio'r gair 'attracted' i gyfieithu'r gair 'llygad-dynnu', er bod angen cysyniad cryfach yma, megis 'bewitched'. Gorchfygwyd pawb, i raddau mwy neu lai, gan yr ymadrodd anghyffredin 'gydag i'r werin ddod i'w theyrnas' ('when ordinary people gained

control/became enfranchised’?). Defnyddiodd dau ymgeisydd yr ymadrodd ‘the ancient Victorian world’ i drosi’r ymadrodd ‘y cynfyd Fictoraidd’.

Camgyfieithiadau cyffredin eraill a ddeilliai o beidio â meddwl digon am yr union air Saesneg oedd rhoi ‘atmosphere’ (yn hytrach nag ‘ambience’) am ‘awyrgylch’, ‘a great effort’ (yn hytrach na ‘a major effort’) am ‘ymdrech fawr’; ‘in maintaining the community’ (yn hytrach nag ‘in sustaining the community’) am ‘wrth gynnal y gymuned’; a ‘people who are outside the circle’ (yn hytrach na ‘people who are outside the loop’) am ‘y bobl sydd y tu allan i’r cylch’. Mae’r olaf yn esiampl dda o’r angen i ymgeiswyr fod ag ymadroddion modern ar flaenau eu bysedd.

Cafwyd sawl cynnig erchyll (‘Britainising’, Britainicizing’) wrth geisio cyfleu’r gair ‘Prydeineiddio’, yn ogystal â methu â throsi priod-ddulliau mwy traddodiadol yn ymadroddion naturiol Saesneg: ‘yn llygad ei le’ (‘quite/entirely correct’ oedd y cyfieithiad cywir) a ‘chwarae’n troi’n chwerw’ (‘things turned sour’).

Cafwyd cryn drafferth gyda’r term ‘y werin’ (‘ordinary people’). Ceisiodd un ymgeisydd osgoi’r broblem drwy adael y term heb ei gyfieithu na’i esbonio. Defnyddiodd ymgeisydd arall y term ‘peasantry’ heb sylweddoli mai gwerin drefol-ddiwydiannol sydd dan sylw’n bennaf yn y darn.

Yr oedd diffyg ymglywed â thôn geiriau i’w weld hefyd yn yr ymadrodd ‘female cooperation’ a defnyddiwyd gan rai i gyfleu’r ymadrodd ‘cydweithrediad y ferch’. Er i lawer ei gyfieithu’n llythrennol, byddai’r ymadrodd ‘the role played by women’ lawer yn nes at yr ystyr yn y cyd-destun hwn.

Yr oedd nifer o ymgeiswyr yn ansicr ynghylch pryd y dylid defnyddio ‘boost’ a pha bryd y dylid defnyddio ‘fillip’ i gyfieithu ‘hwb’ yn y darn hwn.

Camgymeriad cystrawennol, heb sôn am ddim arall, oedd ‘After betraying their gullible faith for so long, members of the peasantry were attracted to alternative political parties’. Go brin mai’r werin a fradychodd y pleidiau.

### **Enghreifftiau o Gyfieithu Da**

Darn 1: ‘and as we commit to paper some idea of this complete ‘self’ that needs to be expressed...’ a ‘...some semblance of this whole ‘self’ that needs to be expressed...’

Darn 2: ‘This had a huge impact on the number of Welsh electors.’

### **Prif Arholwr (o’r Gymraeg i’r Saesneg) Mehefin 2009**